

CAM 1

Pryderon yn Codi

I roi gwybod am unrhyw bryderon, cysylltwch â naill ai studentservices@bangor.ac.uk neu undeb@undebbangor.com yn y lle cyntaf.

Pryder cychwynnol neu bryder sy'n codi am ymddygiad neu les myfyriwr:

Yr aelod staff perthnasol (Mentor/Uwch Warden/Gwasanaethau Myfyrwyr/aelod o'r staff Academiaidd) yn cysylltu a'r myfyriwr.

Caiff y pryderon eu nodi ac anogir y myfyriwr i drafod y materion.

Caiff y myfyriwr wybod am yr help proffesiynol sydd ar gael yn y Brifysgol.

Y myfyriwr a'r aelod staff yn cytuno ar ddyddiad i gyfarfod o fewn 1 mis i adolygu'r sefyllfa. Caiff y pwyntiau allweddol a'r camau gweithredu eu cofnodi a'u cyfleu i'r myfyriwr o fewn 5 niwrnod gwaith.



Y myfyriwr yn ymateb ac yn cydweithredu

Y myfyriwr yn cael cymorth

Y myfyriwr yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau ymddygiad

Diwedd y broses



Y myfyriwr yn ymateb ac yn cydweithredu

CAM 2

Pryderon Parhaus a/neu Sylweddol

Mae pryderon parhaus neu sylweddol yn codi am ymddygiad neu weithredoedd myfyriwr unigol:

Gwahodd y myfyriwr i gyfarfod â'r Prif Warden neu enwebai i drafod y pryderon a chanfod sut mae'r myfyriwr yn gweld y materion a nodwyd a'u heffaith.

Cytuno ynghylch Cynllun Gweithredu gydag amserlen i roi cymorth a chytuno'n ffurfiol ynghylch y disgwyliadau i'r myfyriwr gadw atynt. Caiff y pwyntiau allweddol a'r camau gweithredu eu cofnodi a'u cyfleu i'r myfyriwr o fewn 5 niwrnod gwaith.

Rhoi copi o'r Cynllun Gweithredu i'r Pennaeth Bywyd Preswyl a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Masnachol.

Dweud yn glir beth fydd canlyniadau peidio â chadw at y Cynllun Gweithredu.



Pryderon y staff yn parhau

Trafod y sefyllfa gyda'r Pennaeth Bywyd Preswyl

Nid yw'r myfyriwr yn ymateb a/neu mae'n anfodlon ymrwymo o fewn yr amserlen benodedig



Nid yw'r myfyriwr yn ymrwymo



CAM 3

Pryderon Difrifol neu Barhaus

Codir pryderon difrifol neu barhaus am weithredoedd neu ymddygiad myfyriwr unigol, sy'n peryglu iechyd a diogelwch, ei les/ei lles ei hun ac eraill.

Bydd y Pennaeth Bywyd Preswyl, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Masnachol neu enwebai'n cynnull Cynhadledd Achos. Bydd yr isod yn bresennol:

- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Masnachol
- Pennaeth Bywyd Preswyl neu enwebai
- Pennaeth Cefnogaeth i Fyfyrwyr neu enwebai
- Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio neu enwebai
- Cynrychiolwyr priodol o'r timau Gwasanaethau Myfyrwyr
- Aelod o dîm Warden y Neuaddau a/neu Diogelwch lle bo'n briodol.

Canlyniadau posibl



Cynllun Gweithredu Uwch

Bydd i'r cynllun ddyddiad adolygu penodol, ac eglurir beth fydd canlyniadau peidio â chadw at y Cynllun Gweithredu.

Rhoi copi o'r Cynllun Gweithredu i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Masnachol a'r Pennaeth Bywyd Preswyl.



Newid Llety

Argymhelliad i newid llety o bosibl i flocc neu safle arall.



'Rhybudd i Ymadael â'r Neuaddau'

Nid yw'r myfyriwr yn ymateb ac nid yw'n cydweithredu, ac mae pob cymorth wedi ei ddihysbyddu.

Ceisio cymeradwyaeth gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Masnachol. Hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig o fewn 5 niwrnod gwaith.